MANNAU O DDIDDORDEB RHONDDA CYNON TAF

# TAITH GERDDED COMIN PONTYPRIDD









CYNGOR TREF PONTYPRIDD TOWN COUNCIL

STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

## CYFLWYNIAD

Mae Comin Coedpenmaen (Comin Pontypridd yw'r enw mwy cyfarwydd) yn ddrych meicrocosmig o'r cefn gwlad sy'n amgylchynu'r dref, a phob cynefin gyda'i gymysgedd nodedig ei hunan o blanhigion ac anifeiliaid. Mae'r glaswelltir asid yn cynnwys ystod eang o fathau o weiriau a blodau brodorol megis tresgl y moch, briwydd y gors, troed yr iâr, y bengaled ddu, a ffyngau cap cwyr lliwgar yn nhymor yr hydref. Mae hefyd glaswelltir corslyd gyda llaeth y gaseg, erwain, a charpiog y gors, ac yn y sgydau dŵr, mae fioledau'r gors yn tyfu. Ym 1885, daeth y botanegwr enwog, John Storrie (Flora of Glamorgan, Wade et al, 1994), o hyd i'r blodyn pitw a phrin, sef deilen gron Cernyw, yn tyfu ar y Comin. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r blodyn yma wedi cael ei ailddarganfod ar Gomin Llantrisant a'r Graig, Llantrisant, felly mae hi'n bosibl iawn bod y math yma o flodyn bychan yn bodoli yma o hyd.

Mae eithin, ac ardaloedd lle mae grug a llus yn tyfu, i'w gweld, ar y llethrau creigiog. Mae hen goetir ynghyd â choed iau megis y dderwen, yr onnen, y wernen, y fedwen, y gelynen, y gollen, y griafolen, yr helygen a'r ddraenen wen, yn cynnwys ardaloedd o glychau'r gog a llygaid ebrill, yn ogystal â grug, mieri a rhedyn. Mae'r coetiroedd yn darparu llefydd i nythu, a bwyd i bryfed ac adar. Efallai y clywch chi delor yr helyg, siff-saff, dryw, robin goch, telor penddu, aderyn du, bronfraith a brych y coed. Ymhlith y pryfed, efallai y gwelwch chi bili-balaod melyn y rhafnwydd, y brithribin porffor a'r gweirlöyn brych. Ar nosweithiau cynnes o haf, mae ymylon y coetir yn llefydd da i chwilota am ystlumod, sydd yn bwyta miliynau o wybed mân.

**1** Dechreuwch eich taith yn ymyl y map/arwydd mawr gyferbyn â hen Ysbyty'r Bwthyn. Tref Fictoraidd yw Pontypridd yn y bôn. Tyfodd hi fwyaf cyflym yn ystod ail hanner y 19eg ganrif. Ar yr adeg yma, prin iawn oedd unrhyw ddarpariaeth gofal iechyd, a doedd dim ysbyty wedi'i neilltuo ar gyfer y dref. Cafodd achosion o salwch difrifol eu trin yn y Wyrcws ar y Graig. Ym 1907, dechreuodd codi arian er mwyn adeiladu ysbyty newydd, ond agorodd e ddim ar y safle yma tan 16 Chwefror 1911, ar gost o bron iawn i £4,000. Pobl y dref, ac yn arbennig glowyr y pyllau glo cyfagos, a dalodd yr arian yma.



**2** Cerddwch ymlaen ar hyd y droedffordd i'r Maen Chwyf (Maen Siglo), sef 'maen dyfod rhewlifol' a gafodd ei gario i lawr y cwm gan lif y rhew yn ystod Oes y Rhew tua 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Bydd y maen yn siglo o hyd, wrth i rywun neidio i fyny ac i lawr arno. Dros gyfnod o 100 o flynyddoedd, roedd hwn yn fan cyfarfod pwysig iawn yn hanes y dref. Roedd Edward Williams (a oedd yn cael ei adnabod fel 'Iolo Morgannwg', sef ei enw barddol), a welwch chi yn y llun, yn hynafiaethydd dylanwadol o Gymro. Yn ogystal â bod yn fardd, ef oedd dyfeisiwr y seremoni rydyn ni'n ei gweld bob blwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Ym 1814, fe gynhaliodd e gyfarfod o feirdd lleol i ddathlu'r heddwch â Ffrainc ar ddiwedd Rhyfeloedd Napoleon. Ei drefnydd lleol oedd Thomas Williams, sef 'Gwilym Morgannwg', landlord tafarn y 'Mason's Arms' (bellach, yr HSBC), ac yn ddiweddarach, tafarn y 'New Inn' (yn ymyl Alfred's), a dechreuodd yr achlysur gyda gorymdaith o'r dafarn.





Fel hyn y dechreuodd y traddodiad o gynnal cyfarfodydd o'r fath - ambell waith, gymaint â phedwar y flwyddyn (ar hirddydd haf neu fyrddydd gaeaf a chyhydnosau'r Gwanwyn a'r Hydref, neu o gwmpas yr adegau yna). Parhaodd y rhain (yn afreolaidd) am dros gant o flynyddoedd. Eu nodweddion cyffredin oedd – gorymdaith liwgar o'r dref, baneri, cerddoriaeth a gafodd ei chanu ar delyn, a cherddi ar destunau o ddiddordeb cyffredol, a gafodd eu darllen o'r Maen Chwyf (nid pynciau mawr megis 'Rhyfel a Heddwch', ond yn hytrach, 'Ai'r bwa maen hwyaf yn y byd yw pont William Edwards?, neu 'Pa fanteision a ddaeth yn sgil agor Rheilffordd Cwm Taf?, neu drafodaeth ar gyflawniadau/rhinweddau rhyw berson enwog lleol, e.e., Dr. William Price).



MANNAU O DDIDDORDEB RHONDDA CYNON TAF

# TAITH GERDDED COMIN PONTYPRIDD



Ym 1838, dechreuodd Dr. William Price (1800-1893) gasglu tanysgrifiadau er mwyn adeiladu tŵr maen 100 troedfedd yn y fan yma, i fod yn “amgueddfa, sefydliad gwyddonol, ac ysgol i blant y tlodion.” Roedd y tŵr i gael ei ariannu gan ‘camera obscura’, sef dyfais optegol, a fyddai’n atyniad i ymwelwyr. Dyma’r cynnig cyntaf i sefydlu amgueddfa mewn unrhyw le yng Nghymru. Yn fuan wedi hynny, daeth Price yn arweinydd blaenllaw ym Mudiad y Siartwyr, gan ymgyrchu am estyniad i’r rhyddfraint. Yn dilyn ataliad gorymdaith y Siartwyr yng Nghasnewydd ym 1839 (cafodd o leiaf 24 o bobl eu lladd ac arweinwyr eu halltudio), ciliodd Price i Ffrainc, a daeth ei gynllun uchelgeisiol i ben. Serch hynny, adeiladodd e’r Tai Crwn gerllaw ugain mlyne 7 yn ddiweddarach (gweler ).

Mae sawl hanes yn cael ei adrodd am Price yn perfformio wrth y Maen Chwyf ac yn dod yn fwy ecsentrig wrth heneiddio – gan gerdded o Drefforest mewn gwisg lawn y Derwyddon gyda baner fawr o sidan coch, a chan ddringo i ben y Maen Chwyf i annerch yr haul am hanner dydd. Tu ôl i’r perfformiadau yma, roedd gan Dr. Price fwriadau difrifol. Fe sefydlodd y gydweithfa (‘co-op’) gyntaf yng Nghymru ym 1840. Ymhell cyn hyn, roedd e wedi sefydlu ei Wasanaeth Iechyd Cenedlaethol ei hunan – byddai gweithwyr yn y gweithfeydd cadwyni yn talu cyfraniadau iddo fe’n wythnosol ac wrth wneud hynny, yn derbyn gofal iechyd am ddim. Parhaodd y trefniant yma am dros hanner cant o flynyddoedd. Ond efallai bod Dr. Price yn cael ei adnabod orau am fod yn arloeswr amlosgi ym Mhrydain. Ym 1884, fe amlosgodd e gorff ei faban, a doedd hynny, ar y pryd, ddim yn gyfreithlon. Cafodd ef ei erlyn ond fe amddiffynnodd ei hun yn llwyddiannus. Roedd yr achos wedi gosod cynsail, ac arweiniodd at basio Deddf Amlosgi 1902. Cafodd yr amlosgfa gyntaf ei hagor yng Nghymru ym 1924 ychydig i’r de o’r Comin yng Nglyn-taf. Dadorchuddiodd merch Dr. Price, Penelopen, ffenestr wydr lliw yno’n ddiweddarach, er cof amdano fe.



Mae unig gloc mawr Evan Davies, sydd wedi para hyd heddiw, yn Amgueddfa Pontypridd.

Roedd Evan Davies (ar y dde) yn wneuthurwr clociau lleol, a fe a hawliodd y teitl Archdderwydd Morgannwg. Ef adeiladodd e’r cylch cerrig a’r sarff ar gyfer ei urddo ym 1850. Roedd e wedi astudio gwaith William Stukely, yr archeolegydd o’r ddeunawfed ganrif, a oedd wedi ysgrifennu llawer am Gôr y Cewri ac Avebury. Roedd Davies hefyd yn gyfarwydd â gwaith William Blake. Cafodd y ddau yma ddylanwad ar ei waith e ar y Comin. Mae llygad dde’r sarff yn cael ei amgylchynu gan ddeg llythyren gyntaf y wyddor farddol – o ben a phastwn Iolo ei hun yn ôl haneswyr Prydain, ond yn adnabyddadwy fel Etrwsgeg Geltaidd yn ôl pobl Ewrop.

Daeth Evan Davies â phasiantri a drama i'r orsedd wrth y Maen Chwyf. Unwaith, fe ddosbarthodd e daflenni, yn cyhoeddi y byddai proffwydoliaeth Eseia yn dod yn wir. Ymgynullodd torf fawr. Atgoffodd Evan ei gynulleidfa bod Eseia wedi proffwydo: 'Bydd e'n barnu achosion rhwng y cenhedloedd ac yn setlo dadleuon rhwng pobloedd lawer. Byddan nhw'n curo eu cleddyfau yn sychau aradr a'u gwaywffyn yn grymanau tocio'. Ar yr union adeg, arddangosodd ei gynorthwywyr yr offer amaethyddol dan sylw, a chafodd hyn gymeradwyaeth gan y dorf. Dyma oedd protest Evan yn erbyn Prydain yn mynd i ryfel yn erbyn Rwsia yn y Crimea.

Yn annisgwyl, ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarach, dechreuwyd ymdrin â phynciau mwy modern yng nghynulliad hirddydd haf 1860. Fy glywodd y dorf dair darlith; un ar ddarganfyddiadau daeareg, un arall (yn ôl pob golwg) yn egluro gwaith Darwin, a'r drydedd yn dadlau y dylai'r eisteddfod ledaenu gwybodaeth fodern (nid cerddoriaeth a barddoniaeth yn unig). Rhag ofn i hyn fynd yn rhy drwm, roedd James James (cyfansoddwr alaw Hen Wlad Fy Nhadau) yn bywiogi'r egwyliau drwy ganu alawon poblogaidd ar delyn. Byddai Evan, sef tad James ac awdur geiriau'r Anthem, yn mynychu cyfarfodydd yr orsedd yn rheolaidd. Byddai'n darllen ei gerddi o'r Maen Chwyf, ac yn protestio yn erbyn culni gweinidogion y dref.



Yn y 1870au a'r 1880au, tyfodd a newidiodd Pontypridd yn gyflym. Ym 1820, roedd y lle wedi bod yn bentref Cymraeg ei iaith. Erbyn 1900, roedd hi'n dref fawr, a Saesneg oedd y brif iaith. Chafodd dim un capel Cymraeg mo'i adeiladu ar ôl 1890. Yn y byd newydd yma, daeth cynulliadau'r derwyddon wrth y Maen Chwyf yn fwy amherthnasol, er iddyn nhw barhau tan 1921. Serch hynny, daeth y Maen Chwyf yn fan cyfarfodydd cyhoeddus ar bynciau a oedd o ddiddordeb i boblogaeth gymysg i dref oedd ar gynnydd. Yn y 1860au, pan oedd cyflogau'n isel a diweithdra'n uchel, daeth asiantau ymfudo i siarad â'r bobl o'r Maen Chwyf, ac annog y gweithwyr i geisio bywyd gwell yn yr Unol Daleithiau neu yn Awstralia. Mewn gwirionedd, mewn ymateb i wahoddiad o'r fath gan frawd oedd wedi ymfudo i'r U.D. yr ysgrifennodd Evan James eiriau Hen Wlad Fy Nhadau, gan esbonio pam ei fod e wedi aros yn yr 'Hen Wlad' yn hytrach na mynd â'i deulu i'r 'Byd Newydd'.





Ym mhwll glo Tynewydd ger y Porth, ym 1877, cafodd pump o lowyr eu hachub mewn amgylchiadau eithaf tebyg i'r glowyr yn Tsile yn 2010. Oherwydd ei fod e'n drychineb gyda diweddglo hapus, rhoddwyd cyhoeddusrwydd mawr iddo, ac ymgynullodd torf fawr wrth y Maen Chwyf i weld medalau Albert yn cael eu cyflwyno i ddynion y frigâd achub. Pan streiciodd glowyr mewn protest yn erbyn toriadau cyflog ym 1893 ac eto ym 1898, ymgasglon nhw o gwmpas y Maen Chwyf i wrando ar Keir Hardie, a ddaeth yn AS Merthyr ac Aberdâr. Hardie oedd y dadleuwr mwyaf di-flewyn-ar-dafod o blaid y glowyr yn y Senedd. Am gant o flynyddoedd, y Maen Chwyf oedd canolbwynt cyfarfodydd cyhoeddus ar unrhyw destun a oedd o ddiddordeb i bobl Pontypridd a'r cymoedd cyfagos. Parc Coffa Ynysangharad yw lle agored mawr cyhoeddus y dref erbyn hyn, a hynny ers 1923.



**3** Dilynwch y droedffordd am 130 metr, ac yna fe ddewch chi at adfeilion siambr gladdu cynhanesyddol ychydig i'r chwith o'r llwybr. Mae'r garnedd yma yn dyddio o oddeutu 1500 CC, ac er bod y domen wedi'i gwastadu, mae'n bosibl gweld rhai nodweddion diddorol o hyd. Yn agos at y canol, mae'r gist neu'r siambr, lle byddai'r corff wedi gorwedd, er ei fod wedi'i lenwi erbyn hyn. Mae haen o gerrig mawr ar y tu mewn a byddai maen capan wedi bod arni hi yn wreiddiol. Mae'r maen capan erbyn hyn yn gorwedd ychydig o lathenni i ffwrdd. Mae wyth o'r deg carreg fach a oedd yn ffurfio cylch o gwmpas y domen gladdu yn dal i fod yn eu lle. Mae tipyn o le rhyngddyn nhw, ac mae rhai mor fach fel eu bod nhw wedi'u cuddio gan y glaswellt. Ar ddiwrnod braf, edrychwch i'r de drwy'r coed ac i lawr Cwm Taf. I'r dde, ar y gorwel, mae Mynydd y Garth, ac ar ei gopa mae'n bosibl i chi weld amlinelliad o nifer o domenni claddu o oedran tebyg i'r siambr ar y Comin.



**4** Ewch ymlaen ar hyd y llwybr tuag at y gofeb ryfel a gafodd ei dadorchuddio gan yr Is-iarll Allenby ar 6 Awst, 1923, ac yn gyflwynedig i 5ed Bataliwn Catrawd Cymru. Cafodd llawer o filwyr y gatrawd eu recriwtio yn yr ardal yma. Islaw, a thu draw i'r A470, mae Parc Coffa Ynysangharad a gafodd ei agor ar yr un diwrnod, ar ôl apêl gyhoeddus i brynu'r tir. Wrth droed y darren, roedd llwybr Camlas Morgannwg. Wedi'i hagor ym 1794, fe gysylltodd y gamlas dref Merthyr (oedd yn cynhyrchu haearn) â'r môr yng Nghaerdydd. Braidd dim o'r gamlas sydd ar ôl heddiw, ond mae gwirfoddolwyr brwd wrthi'n atgyweirio basn loc dwbl, sydd i'w weld y tu ôl i dafarn y 'Bunch of Grapes' ar Ynysangharad Road. Roedd gweithfa cadwyni cebl ac angorau Brown Lenox yn arfer sefyll lle mae'r parc manwerthu heddiw. Cafodd y weithfa yma ei hagor ym 1818.

Saif Pontypridd yn y man lle mae'r afonydd Taf a Rhondda yn cwrdd. Cafodd siâp y tir ei ffurfio o ganlyniad i oesoedd o erydiad gan y tywydd a dŵr, ac yn yr achos yma, ei gryfhau gan rew, mewn cyfres o rewlifiannau. Daeth yr un diwethaf i ben tua 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae'n bosibl gweld y cwm siâp 'U' clasurol yma, a gafodd ei ledaenu a'i ddyfnhau gan rew, wrth i chi edrych ar draws y Parc a thua'r Graig.

O'r olygfan yma, mae modd i chi fwrw golwg dros y dref a'i lleoliad dramatig yng nghanol y cymoedd. Y graig waelod, ar draws holl faes glo de Cymru, yw tywodfaen pennant. Yma mae modd i chi weld bandiau o gerrig mwy caled a thrwchus, a gafodd eu ffurfio mewn moroedd hynafol cyn i'r dinosoriaid grwydro'r ddaear. Mae'r gwythiennau glo, oedd yn helpu dod â chyfoeth i'r dref, wedi'u cuddio ymhell islaw. Yr unig olion yw llethrau coediog tomennydd Gelliwion ar ochr arall y dref. Mae pennau pwll siafftiau'r Bertie a'r Trefor ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda o'r golwg. Byddai'r garreg galed yn cael ei defnyddio i adeiladu rhan fwyaf y tai a'r adeiladau amlwg; nodwedd sy'n uno'r dref â'i hamgylchion. Mae hen chwareli ar ymyl y Comin, ac mae'r chwarel fwy diweddar, i gyfeiriad y gogledd o'r dref, – Craig yr Hesg – o'r golwg.



**5** Ewch ymlaen ar hyd y llwybr tarmac am 50 metr ac wrth y polion concrît, cymerwch y llwybr gwair i'r dde. Cerddwch am 100 metr (gyda'r tai ar y chwith) nes i chi gyrraedd llwybr tarmac byr. Ar ôl i chi gyrraedd y pen, dilynwch y llwybr gwair i'r chwith nes i chi gyrraedd maen hir cynhanesyddol, sydd wedi'i osod yn fwriadol ar echelin ddwyreiniol-gorllewinol – arwydd arall o bwysigrwydd yr ardal yma i bobl cynhanes. Gerllaw hefyd, fe welwch chi nifer o glogfeini a gafodd eu gadael yma gan gilio'r rhewlif, yn debyg i'r Maen Chwyf ei hunan.



**6** Ar y dde, 20 metr yn bellach i ffwrdd, mae maen coffa gyda'r geiriau 'Stranger Halt' wedi'u hysgrifennu arno. Yn wreiddiol, roedd enw Philip Thomas ar y maen hefyd er cof amdano. Ef oedd rheolwr Gweithfa Gadwyni Brown Lenox. Bu farw ym 1840 ar ôl 21 o flynyddoedd yn y swydd. Er yn llawn bwriadau da, achosodd y llinell anffodus 'much to the benefit of mankind died' gymaint o ddicter i'w deulu, credir iddyn nhw ddileu ei enw. Ewch ymlaen ar hyd y llwybr yma nes i chi ailymuno â'r llwybr tarmac, fydd yn arwain yn ôl at y man cychwyn.





**7** Taith amgen fyddai troi i'r dde wrth Hospital Road, a mynd ymlaen i Rockingstone Terrace. Mae'r ffordd yn culhau ac yn troi'n lôn. Cerddwch i lawr y tyle am 180 metr nes i chi gyrraedd y Tai Crwn wedi'u gwyngalchu a gafodd eu hadeiladu gan Dr. William Price (sydd wedi'i enwi eisoes) ym 1861. Y bwriad wrth adeiladu'r rhain oedd creu mynediad mawreddog i blasty mwy mawreddog fyth ond chafodd y plasty yma erioed ei adeiladu.

I ddychwelyd i'r dref, ewch ymlaen i lawr y tyle i Eglwys y Santes Fair yng Nglyn-taf. Trowch i'r dde i Pentrebach Road, sy'n dilyn gwaelod tarren y Comin, a mynd ymlaen i Ynysangharad Road. Yma, fe ewch chi heibio i dafarn y Bunch of Grapes (cyfle delfrydol i gymryd saib am fwyd a diod), sydd yn gyfagos i gynllun adfer Camlas Pontypridd.



## CYRRAEDD YMA

**O'r de** - Gadewch yr A470 wrth y fynedfa A4058 Pontypridd. Wrth y cylchfan, cymerwch yr ail fynedfa, a'r lôn dde. Wrth y cylchfan nesaf, cymerwch y drydedd fynedfa i Coedpenmaen Road (Cilfynydd ar yr arwydd), a dilyn y map yma i bwynt **1**.

**O'r gogledd** - Gadewch yr A470 wrth y fynedfa A4233 Pontypridd, Cymoedd y Rhondda, ac wrth y cylchfan, cymerwch y fynedfa gyntaf i Coedpenmaen Road (Cilfynydd ar yr arwydd), a dilyn y map yma i bwynt **1**.

**Cerdded** - o Amgueddfa Pontypridd, croeswch Afon Taf a cherdded ar hyd y palmant chwith nes i chi gyrraedd y cylchfan mawr o dan briffordd yr A470. Yna, dilynwch y map yma i bwynt **1**.